Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# The Cad Centre UK Ltd
# Y Llawr Cyntaf
# Clipper House
# Quay West
# Parêd y Cei
# Abertawe
# SA1 1SR

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/09/2017**

## Cyd-destun

Darparwr hyfforddiant a berchnogir yn breifat yw The CAD Centre UK Ltd ac mae ganddo dair canolfan hyfforddi ledled Cymru, sydd wedi eu lleoli yng Nghasnewydd, Abertawe a Bangor. Mae'r darparwr yn cyflwyno nifer o raglenni hyfforddi prentisiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, gweinyddu busnes, ac addysg a hyfforddiant. Adeg yr arolygiad, roedd 622 o ddysgwyr ar raglen, yr oedd tua hanner ohonynt yng ngogledd Cymru. Yn y flwyddyn gytundebol 2015-2016, roedd: 250 o ddysgwyr yn dilyn prentisiaethau sylfaen; 385 yn dilyn prentisiaethau; a 100 yn dilyn prentisiaethau uwch.

Gwerth rhagolygol amcangyfrifiedig contract y flwyddyn bresennol yw £1.8 miliwn. Nid oes gan y darparwr unrhyw bartneriaid cyflwyno.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae cryfderau ym mherfformiad presennol y darparwr yn cynnwys:

- Mae cyfraddau cyrhaeddiad dysgwyr wedi gwella o'r cyfraddau o'r flwyddyn flaenorol
- Mae llawer o ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig o ansawdd da
- Mae mwyafrif y tiwtoriaid a'r aseswyr yn meddu ar gymwysterau da ac mae ganddynt wybodaeth bynciol gyfoes, ac yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i gynllunio sesiynau
- Mae'r darparwr yn rheoli materion diogelu yn briodol

Fodd bynnag, mae perfformiad presennol yn anfoddhaol oherwydd:

- Mae cyfraddau cyrhaeddiad dysgwyr wedi aros ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol yn y ddwy flynedd ddiwethaf
- Ni lwyddodd unrhyw un o ddysgwyr y brentisiaeth uwch i gyflawni eu fframwaith hyfforddi yn 2015-2016
- Mae nifer y dysgwyr sy'n cymryd yn hwy na'r disgwyl i gwblhau eu fframweithiau hyfforddi yn rhy uchel
- Nid yw lleiafrif o diwtoriaid a hyfforddwyr yn herio dysgwyr ddigon
- Nid yw'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn cymryd perchnogaeth briodol o'u dysgu
- Mewn lleiafrif o achosion, nid yw staff yn rhoi sylw digonol i sicrhau bod dysgwyr yn caffael a dangos gwybodaeth a medrau pwnc cadarn

### Rhagolygon gwella

Mae cryfderau yn rhagolygon gwella'r darparwr yn cynnwys:

- Ar ddechrau 2017, yn dilyn adolygiad o'i strwythur rheoli a'i anghenion, penododd y darparwr reolwr canolfan newydd yn Ne Cymru i gryfhau'r ffordd y caiff ei weithrediad ei reoli; mae'r rheolwr hwn a benodwyd yn ddiweddar wedi cyfrannu'n uniongyrchol at y darparwr, gan ddechrau gwella'r cynnydd a wna dysgwyr
- Mae rheolwyr yn cyfathrebu'n dda ac yn rheolaidd â'i gilydd
- Mae'r darparwr wedi dechrau cryfhau ei drefniadau sicrhau ansawdd mewnol

Fodd bynnag, mae rhagolygon gwella'r darparwr yn anfoddhaol oherwydd:

- Er bod gan y darparwr gynllun busnes strategol manwl, nid yw ei amcanion yn rhoi blaenoriaeth ddigon uchel i angen y darparwr i wella cyfraddau llwyddo

dysgwyr; nid yw uwch arweinwyr wedi sicrhau digon o welliant cyffredinol yng nghyfraddau llwyddo dysgwyr ers i'w contract dysgu yn y gwaith ddechrau
- Mewn cyfarfodydd staff rheolaidd, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn trafod y cynnydd y mae'r cwmni'n ei wneud tuag at ei amcanion busnes gyda staff yn systematig
- Hyd nes yn ddiweddar, nid yw arweinwyr a rheolwyr wedi herio staff ddigon i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar gynorthwyo dysgwyr i gyflawni
- At ei gilydd, nid yw'r darparwr yn rhoi ystyriaeth lawn i raddau ac effaith data cyhoeddedig ar ddeilliannau dysgwyr wrth lunio barnau ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth
- Nid yw system e-bortffolio ar-lein y darparwr wedi cael ei hymgorffori ar draws y cwmni eto; mae hyn yn rhwystro gallu rheolwyr i ddadansoddi cynnydd dysgwyr ar lefel strategol, ac nid yw hyn yn ddigon trylwyr ar hyn o bryd
- Nid yw cynlluniau datblygu ansawdd y darparwr yn nodi camau gweithredu penodol a thargedau gwella realistig bob amser
- Cyfyngedig fu'r cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion o'r arolygiad blaenorol

## Argymhellion

A1 Gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd yn eu dysgu ac yn cyflawni eu fframweithiau cymhwyster

A2 Sicrhau bod dysgwyr yn deall yn glir gynnwys eu rhaglen a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwneud cynnydd amserol, gan wneud y defnydd gorau o dystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol i achredu eu medrau gweithle er mwyn gwella perchnogaeth o'u dysgu

A3 Gwella gosod targedau ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd

A4 Cryfhau medrau aseswyr i wella cysondeb ac ansawdd yr asesu a manylder yr her y maent yn ei chynnig i ddysgwyr

A5 Datblygu systemau a gweithdrefnau ansawdd cadarn i wella ansawdd y ddarpariaeth a'i heffaith ar gynnydd dysgwyr

A6 Cryfhau effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth ar bob lefel i wella'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau eu hyfforddiant yn llwyddiannus

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynllun gweithredu ôl-arolygiad y darparwr yn hydref 2017. Bydd ailarolygiad yn cael ei gynnal tua 12 i 18 mis ar ôl y dyddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Yn 2014-2015, cyflawnodd dysgwyr eu fframweithiau hyfforddi ar gyfraddau a oedd gryn dipyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer dysgu yn y gwaith.

Yn 2015-2016, mae cyfraddau cyrhaeddiad dysgwyr wedi gwella o gymharu â chyfraddau'r flwyddyn flaenorol, ond maent islaw cyfartaledd cenedlaethol y flwyddyn flaenorol o hyd. Ni lwyddodd unrhyw ddysgwyr prentisiaeth uwch i ennill eu cymwysterau fframwaith. Mae nifer y dysgwyr sy'n cymryd yn hwy na'r disgwyl i gwblhau eu fframweithiau hyfforddi yn rhy uchel.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr sy'n cwblhau eu fframweithiau hyfforddi yn ennill eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefelau sy'n briodol i'w fframweithiau hyfforddi. Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n ennill cymwysterau uwchlaw'r lefel sy'n ofynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr presennol yn gwneud cynnydd digonol ac mae'r gyfradd y mae lleiafrif ohonynt wedi cyflawni arni yn dechrau gwella. Mae dysgwyr sydd wedi ymuno â rhaglenni yn fwy diweddar yn gwneud cynnydd cyflymach.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn aelodau gwerthfawr o staff eu cyflogwr a gwnânt gyfraniad cadarnhaol at waith eu cyflogwr. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu a dangos cymhwysedd ymarferol cryf yn eu gweithleoedd ac yn ymgymryd ag ystod eang o dasgau yn hyderus. Defnyddiant ystod eang o weithgareddau yn y gweithle i ddatblygu a defnyddio medrau ymarferol a chasglu tystiolaeth portffolio. Er enghraifft, dangosodd dysgwr ddealltwriaeth glir o saernïaeth a strwythur dogfen wrth ddatblygu deunyddiau o ansawdd da wedi'u geirbrosesu. Mae mwyafrif y dysgwyr yn dangos gwybodaeth am theori sy'n briodol i'r cam yn eu rhaglen hyfforddi.

Mae gwaith ysgrifenedig mwyafrif y dysgwyr wedi'i gyflwyno'n dda, gyda sillafu, atalnodi a gramadeg rhesymol sy'n briodol i'w lefel. Yn yr achosion hyn, mae dysgwyr yn cwblhau tasgau asesu ysgrifenedig ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o theori a chysyniadau lefel uwch. Mae'r gwaith hwn wedi'i gyflwyno'n dda, ac mae dysgwyr yn rhoi sylw amlwg i sillafu a gramadeg cywir. Mae rhai dysgwyr prentisiaeth uwch yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig o safon uchel.

Mae llawer o ddysgwyr yn cynhyrchu portffolios o safon ddigonol, ac mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio portffolios electronig i drefnu eu gwaith a chyflwyno aseiniadau ar gyfer asesiad.

Mae dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio a datblygu eu medrau dwyieithog yn dda yn y gweithle, yn ystod gweithgareddau hyfforddi ac asesu ac adolygiadau cynnydd.

Mae llawer o ddysgwyr yn dangos hyder wrth ymgymryd â'u rolau gwaith ac maent yn gweithio'n arbennig o dda gyda'u cyflogwyr a'u cyfoedion. Fodd bynnag, nid yw

digon o ddysgwyr yn cymryd perchnogaeth o'u dysgu, ac o ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth glir o'r cynnydd y maent yn ei wneud neu'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i gwblhau eu fframwaith hyfforddi.

**Lles: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd datblygu a chynnal cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae llawer ohonynt yn ymwybodol o bwysigrwydd ffordd iach a chadarnhaol o fyw, a gallant drafod yr agwedd hon â'u haseswyr yn eu sesiynau adolygu. Maent yn dangos tystiolaeth o hyn yn eu portffolios.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn deall pwysigrwydd arferion gweithio diogel yn dda, ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r rheoliadau a'r gofynion iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i'w gweithle. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwybod sut i adrodd am arferion anniogel, damweiniau, a phryderon ynghylch diogelu.

Mae mwyafrif y dysgwyr wedi'u cymell yn dda ac yn mwynhau eu dysgu. Maent yn ymfalchïo yn ansawdd eu gwaith ac mewn cynhyrchu tystiolaeth briodol ar gyfer eu portffolios. Mae gan y dysgwyr hyn berthnasoedd gweithio cadarnhaol â'u haseswyr, ac maent yn gwerthfawrogi eu profiad hyfforddi. Fodd bynnag, nid yw rhai ohonynt yn ymgysylltu'n dda, ac o ganlyniad, nid ydynt bob amser yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mae gormod o ddysgwyr nad ydynt yn gwneud digon o gynnydd, ac maent yn cwblhau eu rhaglenni yn hwyrach na'r dyddiadau gorffen a gytunwyd ar y cychwyn. Mae llawer o ddysgwyr wedi cael eu cymell i wella'r gyfradd y maent yn gwneud cynnydd arni tuag at eu fframweithiau cymhwyster gan yr ymweliadau diweddar, mwy rheolaidd gan diwtoriaid.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r darparwr yn cyflwyno ystod o raglenni hyfforddi sy'n bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn briodol ledled Cymru. Mae cyfleoedd i wneud cynnydd o raglenni lefel 2 i lefel 4, er bod cyfraddau llwyddo yn rhy isel ar hyn o bryd. Mae'r darparwr yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd eu dysgwyr.

Mae'r darparwr yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn briodol i ddatblygu rhaglenni i ymateb i anghenion lleol. Er enghraifft, mae wedi datblygu rhaglen lefel 4 mewn rheoli prosiectau, i ymateb i angen a nodwyd o ddiwydiant.

Mae pob un o'r dysgwyr yn cwblhau asesiad cychwynnol ar ddechrau eu rhaglen hyfforddi. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o aseswyr yn defnyddio canlyniadau'r asesiadau hyn yn ddigon cyson nac yn ddigon da i gynllunio dysgu.

Mae llawer o aseswyr yn cyfeirio dysgwyr at adnoddau defnyddiol ar-lein i ddatblygu a gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd ymhellach. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr ac aseswyr yn gwneud defnydd buddiol o'r adnoddau hyn i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu eu medrau yn effeithiol.

Mae mwyafrif yr aseswyr yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddysgwyr gwblhau eu medrau hanfodol. Fodd bynnag, nid yw rhai aseswyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol yn y gweithle, i ddatblygu medrau dysgwyr. Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n cael eu herio gan aseswyr i ddatblygu eu medrau ar lefel uwch.

Yng Ngogledd Cymru, mae'r darparwr yn datblygu Cymraeg dysgwyr yn dda. Mae pob un o'r aseswyr yn siarad Cymraeg ac maent yn cynnal sesiynau hyfforddi ac adolygiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pob un o'r dysgwyr sy'n siarad Cymraeg, gan gynnwys dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith, yn cwblhau sesiynau hyfforddi ac adolygiadau yn Gymraeg.

Yn Ne Cymru, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg dysgwyr wedi'i datblygu'n ddigonol. Ychydig iawn o aseswyr sy'n siarad Cymraeg neu sydd â'r medrau perthnasol i roi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a gwella eu Cymraeg yn effeithiol. Mae'r darparwr yn cynnig hyfforddiant i staff i wella eu medrau Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw aseswyr yn hyrwyddo'r Gymraeg yn Ne Cymru yn gyson effeithiol.

Mae'r darparwr yn cymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru i hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru.

At ei gilydd, mae'r darparwr yn hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn briodol. Fodd bynnag, mae aseswyr yn defnyddio dulliau rhagnodol iawn yn rhy aml yn ystod adolygiadau dysgwyr, ac maent yn colli cyfleoedd sy'n codi'n naturiol i ddatblygu'r ddealltwriaeth hon yn effeithiol.

**Addysgu: Digonol**

Mae mwyafrif y tiwtoriaid a'r aseswyr yn meddu ar gymwysterau da ac mae ganddynt wybodaeth bynciol gyfoes, profiad galwedigaethol a medrau diwydiant. Mae mwyafrif y staff yn defnyddio'r medrau hyn i gynllunio sesiynau defnyddiol sy'n cynnwys nodau ac amcanion priodol. Mae gan fwyafrif y staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu dysgwyr ac maent yn rhoi cymorth priodol iddynt gyflawni eu nodau cymhwyster. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o staff yn herio dysgwyr ddigon ac, yn aml, nid yw'r dysgwyr hyn yn gwneud cynnydd ar gyflymdra sy'n addas i'w gallu. Nid yw'r rhan fwyaf o diwtoriaid ac aseswyr yn gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn cymryd perchnogaeth briodol o'u dysgu i'w galluogi i wneud y cynnydd gorau.

Mae mwyafrif y tiwtoriaid a'r aseswyr yn defnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau addysgu ac adnoddau dysgu. Ym mwyafrif y sesiynau, mae tiwtoriaid ac aseswyr yn ymgysylltu â dysgwyr yn dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o sesiynau, mae aseswyr yn canolbwyntio'n ormodol ar ddefnyddio dalenni cwestiynau safonol ac ar gwblhau gwaith papur nad yw'n herio dysgwyr ddigon. Yn y sesiynau hyn, nid yw staff yn rhoi sylw digonol i sicrhau bod dysgwyr yn caffael a dangos gwybodaeth a medrau pwnc cadarn. Mae mwyafrif y tiwtoriaid a'r aseswyr yn cywiro camgymeriadau sillafu a gramadegol yng ngwaith ysgrifenedig dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw llawer ohonynt yn rhoi adborth ysgrifenedig yn gyson i ddysgwyr ar sut gallant wella safon eu gwaith ymhellach.

Mae'r rhan fwyaf o staff sy'n siarad Cymraeg a'u dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn i sicrhau trosglwyddo didrafferth rhwng Cymraeg a Saesneg yn eu gwaith llafar ac ysgrifenedig. Mae'r staff hyn yn cyfeirio'n dda at dermau galwedigaethol yn Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o aseswyr yn cynnal adolygiadau cynnydd rheolaidd a manwl gyda'u dysgwyr. Fodd bynnag, yn ystod yr adolygiadau hyn, nid yw llawer o aseswyr yn gosod targedau digon clir gyda'u dysgwyr, ac ychydig iawn ohonynt sy'n gosod targedau neu gamau gweithredu penodol yn rheolaidd i helpu i wella medrau dysgwyr mewn llythrennedd neu rifedd.

Eleni, mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn system e-bortffolio ar-lein, y mae lleiafrif o ddysgwyr yn ei defnyddio i storio eu gwaith. Fodd bynnag, mae'r system yn newydd ac nid yw rhai o'r dysgwyr a'r staff yn gallu defnyddio'r system i'w llawn botensial eto. Mae systemau i aseswyr olrhain cynnydd dysgwyr yn ddigonol, ond nid ydynt yn gyson.

Yn gyffredinol, caiff portffolios CGC eu cyflwyno'n dda ac maent yn cynnwys ystod briodol o dystiolaeth. Mae mwyafrif o aseswyr yn manteisio'n dda ar dystiolaeth sy'n codi'n naturiol wrth gynllunio asesiadau dysgwyr.

Mae gan aseswyr yn y gweithle berthynas dda a pherthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda dysgwyr a'u cyflogwyr. Yn gyffredinol, mae cyflogwyr yn darparu cymorth da ac ystod o gyfleoedd hyfforddi priodol yn y gweithle. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o adolygiadau a chynlluniau gweithredu, ni chaiff cyflogwyr eu cynnwys yn ddigonol mewn cytuno a gosod targedau penodol yn gysylltiedig â rôl swydd y dysgwr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r darparwr yn cynnal gwiriadau iechyd, diogelwch a lles cynhwysfawr ar yr holl ddarpar weithleoedd a'r gweithleoedd presennol. Mae cylchlythyr misol y darparwr, a'i gwestiwn y mis, yn darparu adnodd defnyddiol i helpu aseswyr a dysgwyr i feddwl am ystod y testunau ar gyfer cyflogeion a chyflogwyr o ran materion iechyd, diogelwch a diogelu. Fodd bynnag, er bod aseswyr yn cynnwys cwestiynau ar y testunau hyn yn rheolaidd yn eu sesiynau adolygu, maent yn delio â nhw ar lefel arwynebol yn rhy aml. Nid yw tiwtoriaid bob amser yn cymryd digon o ofal i agor trafodaethau am feysydd sensitif, fel diogelu neu fwlio, yn breifat. Mae hyn o bosibl yn rhwystro dysgwyr rhag trafod materion o'r fath gyda'u haseswyr.

Mae'r cylchlythyr yn darparu gwybodaeth werthfawr hefyd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, ac ADCDF, ac mae aseswyr yn ei weld yn ddefnyddiol fel adnodd i drafod testunau gyda dysgwyr mewn adolygiadau.

Mae'r darparwr wedi nodi nad yw ei gyfnod ymsefydlu ar gyfer dysgwyr a'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad y mae'n eu darparu wedi bod yn ddigon cyson na thrylwyr. O ganlyniad, mae gormod o ddysgwyr wedi dilyn rhaglenni nad oeddent yn bodloni eu hanghenion na'u disgwyliadau, ac mae gormod ohonynt yn gadael rhaglenni cyn iddynt orffen eu hyfforddiant. Mae'r darparwr wedi adolygu ansawdd y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad y mae'n eu rhoi i ddysgwyr yn ddiweddar, er mwyn gwella'r drefn o baru dysgwr i gwrs. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith hyn ar gyfraddau cwblhau llwyddiannus dysgwyr.

Yn ystod cyfnod ymsefydlu dysgwyr, mae’r darparwr yn rhoi pecyn ymsefydlu defnyddiol iddynt. Mae’r pecyn hwn yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am y cymorth a’r arweiniad sydd ar gael. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ystod gynhwysfawr o bolisïau a chanllawiau sy’n cwmpasu rheoli eu dysgu, disgwyliadau o’u hymddygiad, a defnydd derbyniol o TGCh a’r rhyngrwyd. Darperir yr arweiniad hwn yn ddwyieithog.

Mae’r darparwr yn rheoli materion diogelu yn briodol. Nid oes unrhyw bryderon arwyddocaol am ddiogelu yn deillio o ddarpariaeth y darparwr. Fodd bynnag, codwyd rhai meysydd i’w gwella o ran rheoli a goruchwylio diogelu gyda’r darparwr yn ystod yr arolygiad.

Mae gan leiafrif o ddysgwyr anghenion dysgu ychwanegol. Yn gyffredinol, nodir y rhain trwy’r broses ymgeisio ac yn y cyfnod ymsefydlu. Trafodir strategaethau i ddarparu cymorth penodol ar gyfer y dysgwyr hyn ac fe gânt eu cytuno rhwng yr asesydd a’r dysgwr, a gyda’u cyflogwr, lle bo’n briodol. Mae’r darparwr yn monitro cynnydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda, trwy ei adolygiadau dysgwyr arferol.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae’r darparwr yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y ddarpariaeth yn briodol. Mae ganddo bolisïau a gweithdrefnau clir i fonitro a gwaredu pob math o wahaniaethu. Mae staff yn deall y polisïau a’r gweithdrefnau hyn yn eithaf da. Fodd bynnag, nid yw’r darparwr yn defnyddio asesiadau effaith ffurfiol ac nid oes ganddo gynllun gweithredu clir i fonitro p’un a yw hyfforddiant ac adnoddau wedi gwella darpariaeth ac arfer.

Mae gan y darparwr ystod briodol o adnoddau i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith dysgwyr, gan gynnwys hyfforddiant ar-lein. Mae’r cylchlythyr misol addysgiadol yn cynnwys eitemau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn ystod adolygiadau cynnydd, mae bron pob un o’r aseswyr yn trafod materion cydraddoldeb ac amrywiaeth a thestunau perthnasol yn eithaf da gan ddefnyddio ystod o gwestiynau penodol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw staff yn rhoi materion yn eu cyd-destun nac yn cyfeirio digon at sefyllfaoedd sy’n codi’n naturiol o fewn rhaglenni dysgwyr.

Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr eu trin yn deg ac fe gânt eu hannog i fynegi eu hunain mewn ffordd gadarnhaol. Mae bron pob un o’r dysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth resymol o gydraddoldeb ac amrywiaeth ac maent yn gwybod gyda phwy y gallant gyfeirio unrhyw broblemau y gallent eu hwynebu.

Mae canolfannau hyfforddi wedi’u lleoli’n briodol, yn agos at gysylltiadau cludiant cyhoeddus. Mae canolfannau hyfforddi yn agor ar fore dydd Sadwrn ar gyfer dysgwyr sydd angen y cyfleuster hwn. Yn gyffredinol, ceir adnoddau priodol mewn canolfannau hyfforddi. Rhoddir gliniaduron a recordwyr digidol i aseswyr, ac maent yn derbyn lwfans tuag at eu ffôn symudol. Rhoddir gwerslyfrau i lawer o ddysgwyr ac mae’r darparwr wedi datblygu ystod eang o becynnau tiwtorial i’w helpu â’u hastudio. Rhoddwyd benthyg cyfrifiadur i un dysgwr.

Mae safon bron pob un o'r lleoliadau gwaith a safleoedd cyflogwyr yn dda, ac mae ganddynt offer modern a chyfoes. Maent yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddysgwyr ddatblygu eu medrau galwedigaethol. Pan fydd nifer o ddysgwyr ar safle, mae rhai cyflogwyr yn neilltuo ystafell hyfforddi ac adnoddau priodol i aseswyr weithio oddi wrthynt. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid yw aseswyr bob amser yn sicrhau bod ardal dawel neu gyfrinachol yn y gweithle i gynnal adolygiadau cynnydd ble gallai fod angen trafod materion sensitif.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae gan y darparwr gynllun busnes strategol manwl, y mae'n nodi ynddo ei nodau ar gyfer y cyfnod 2016-2019. Fodd bynnag, nid yw amcanion y cynllun busnes yn rhoi blaenoriaeth ddigon uchel i angen y darparwr i wella cyfraddau llwyddo dysgwyr. Nid yw uwch arweinwyr wedi sicrhau digon o welliant cyffredinol yng nghyfraddau llwyddo dysgwyr ers i'w contract dysgu yn y gwaith presennol ddechrau. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn cyfeirio at eitemau yn y cynllun busnes. Fodd bynnag, yn y cyfarfodydd hyn, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn trafod yn systematig gyda staff y cynnydd y mae'r cwmni'n ei wneud tuag at ei amcanion busnes.

Tan yn ddiweddar, nid yw arweinwyr a rheolwyr wedi herio staff ddigon i sicrhau eu bod wedi canolbwyntio ar gynorthwyo dysgwyr i gyflawni. Yn dilyn briffiau diweddar gan y Rheolwr Gyfarwyddwr, mae bron pob un o'r staff yn glir erbyn hyn am gyfran y dysgwyr mae angen iddynt sicrhau eu bod yn cwblhau eu fframweithiau hyfforddi yn llwyddiannus.

Mae gan y cwmni dîm rheoli bach, gyda thri uwch reolwr. Ar ddechrau 2017, yn dilyn adolygiad o'i strwythur a'i anghenion rheoli, penododd y darparwr reolwr canolfan newydd yn Ne Cymru i gryfhau'r ffordd y caiff gweithrediad y darparwr ei reoli. Mae'r rheolwr hwn a benodwyd yn ddiweddar wedi cyfrannu'n uniongyrchol at y darparwr, gan ddechrau gwella'r cynnydd a wna dysgwyr. Mae cryfhau'r tîm wedi gwella cyfathrebu o fewn y cwmni hefyd.

Yn ddiweddar, mae staff wedi dechrau cyfarfod â rheolwyr canolfannau bob mis, ac mae rheolwyr yn monitro cynnydd dysgwyr unigol. Mae rheolwyr gweithredol yn adolygu beichiau achos yn aml ac yn rheolaidd, gan arfarnu gydag aelodau o staff pa mor dda y mae dysgwyr unigol yn dod yn eu blaenau. Mae hyn wedi gwella ymatebolrwydd rheolwyr canolfannau o ran cynorthwyo aseswyr i roi cynlluniau gweithredu ar waith os yw dysgwyr unigol yn gwneud cynnydd araf. Ym mwyafrif yr achosion, mae hyn wedi annog staff i wella eu ffocws ar gynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd gwell o ran ennill eu cymwysterau. Mae'r cyfathrebu rheolaidd hwn yn gwella'r ffordd y mae rheolwyr yn targedu cymorth ar gyfer staff nad ydynt yn gwneud cynnydd da. Ceir arwyddion cynnar fod llawer o ddysgwyr yn elwa ar hyn, yn enwedig y rheiny yn y de. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith lawn hyn ar gyfraddau'r dysgwyr o ran cwblhau'n llwyddiannus ac mae gormod ohonynt yn mynd i gwblhau yn hwyr o hyd.

Nid yw buddsoddiad diweddar y darparwr mewn system e-bortffolio wedi cael ei ymgorffori'n gyson ar draws y cwmni eto. Mae hyn yn rhwystro gallu rheolwyr i ddadansoddi cynnydd dysgwyr ar lefel strategol, ac nid yw hyn yn ddigon trylwyr ar hyn o bryd.

Mae rheolwyr canolfannau yn cyfathrebu'n dda â'r uwch dîm rheoli yn ystod cyfarfodydd misol, ac ynddynt maent yn rhannu gwybodaeth am ragfynegiadau am berfformiad a chynnydd dysgwyr tuag at dargedau perfformiad, gan gytuno pa gamau y mae angen eu cymryd i wella.

Mae rheolwyr yn cyfathrebu'n dda ac yn rheolaidd â'i gilydd. Caiff rheolwyr gweithredol gymorth da gan uwch reolwyr i gryfhau'r cymorth a gaiff dysgwyr. Yn ddiweddar, mae hyn wedi galluogi'r darparwr i leihau beichiau achos staff, cynyddu pa mor aml y mae staff yn ymweld â dysgwyr a gwella ymhellach faint o amser sydd ganddynt ar gael i'w cynorthwyo. Mae'r cymorth hwn gan uwch reolwyr wedi galluogi'r darparwr i gryfhau ei ddull o recriwtio dysgwyr hefyd er mwyn lleihau'r niferoedd sy'n rhoi'r gorau i hyfforddiant cyn cwblhau eu cymhwyster.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae gan y darparwr systemau a phrosesau priodol ar waith i gynnal hunanasesiad ar lefel ranbarthol a chwmni. Mae llawer o agweddau ar yr adroddiadau hunanasesu rhanbarthol yn briodol o hunanfeirniadol o ran nodi meysydd allweddol i'w gwella.

Mae adroddiad hunanasesu cyffredinol y darparwr yn amlygu gwahaniaethau rhanbarthol arwyddocaol mewn safonau a pherfformiad. Fodd bynnag, mae lleiafrif o adrannau yn yr adroddiad hunanasesu yn rhy hael yn eu harfarniad o berfformiad yn un o'r rhanbarthau, ac nid ydynt yn rhoi digon o ystyriaeth i ddiffygion sylweddol. Mae hyn wedi dal y cwmni'n ôl o ran sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud digon o gynnydd.

At ei gilydd, nid yw'r darparwr yn rhoi ystyriaeth lawn i raddau ac effaith data cyhoeddedig ar ddeilliannau dysgwyr wrth lunio barnau ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Er enghraifft, ni chaiff arwyddocâd y ffaith fod deilliannau islaw meincnodau a'r perfformiad gwael iawn mewn prentisiaethau uwch eu hadlewyrchu'n gywir mewn barnau hunanasesu.

Er mai uwch reolwyr sy'n darparu mwyafrif y mewnbwn mewn adroddiadau hunanasesu, nid yw hyn yn rhoi digon o ystyriaeth i farn staff. Yn ddiweddar, mae'r darparwr wedi dechrau cynnwys ystod ehangach o staff mewn grwpiau gorchwyl rhanbarthol sy'n cefnogi cynhyrchu a dilysu'r adroddiadau hyn.

Mae'r darparwr wedi dechrau cryfhau ei drefniadau sicrhau ansawdd mewnol, gan gynnwys ansawdd y safoni. Mae ffocws penodol y trefniadau newydd yn codi safonau ar draws y cwmni ac yn sicrhau cysondeb gwell rhwng ei weithrediadau rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i asesu effaith y newidiadau hyn o ran ysgogi'r gwelliannau sylweddol sydd eu hangen.

Mae cynlluniau datblygu ansawdd y darparwr yn nodi meysydd allweddol priodol i'w gwella. Fodd bynnag, nid ydynt yn diffinio'n ddigon clir pa gamau y mae angen eu

cymryd, ac nid ydynt yn gosod targedau realistig ar gyfer gwella chwaith. Yn ychwanegol, nid yw'r cynlluniau'n nodi cerrig milltir clir ar gyfer monitro ac adolygu cynnydd yn erbyn targedau.

Mae'r darparwr yn defnyddio ystod o ddulliau i gael barn dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gofyn am adborth rheolaidd mewn sesiynau adolygu a chynnal holiaduron i ddysgwyr ar adegau allweddol yn rhaglenni dysgwyr. Mae'r cwmni'n ymateb yn briodol i adborth dysgwyr. Mae cylchlythyr y cwmni yn rhoi adborth 'dywedoch chi - gwnaethom ni' i ddysgwyr a staff, gan roi manylion am y camau a gymerwyd o ganlyniad i farn dysgwyr.

Mae trefniadau sicrhau ansawdd mewnol yn cynnwys systemau priodol ar gyfer arsylwi ac arfarnu'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu. Fodd bynnag, mae adborth yn aml yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n ddigon penodol nac arfarnol i roi cyfarwyddyd clir i staff ar feysydd allweddol y mae angen iddynt wella ynddynt.

Mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Yn ystod arsylwadau, mae llawer o gyflogwyr yn canmol y cyfathrebu a'r cymorth a gânt gan y darparwr. Fodd bynnag, mae gwaith partneriaeth presennol y darparwr yn gyfyngedig. Mae'r darparwr wedi cydnabod y cyfyngiadau hyn ac mae ganddo gynlluniau i ddatblygu rhagor o gysylltiadau â phartneriaid allanol, gan gynnwys cynlluniau cymhelliad gyda phrifysgolion, i brentisiaid lefel 3 a 4 fynd ymlaen i ddilyn modiwlau addysg uwch ar gyfradd ostyngol a datblygu cymwysterau newydd ar lefel 4 mewn gweinyddu busnes. Mae'r darparwr yn gweithio'n dda gyda swyddfa leol Canolfan Byd Gwaith i gynnig cyfle i gleientiaid sydd â hanes gwaith cyfyngedig loywi eu medrau ac ymarfer technegau cyfweld. Mewn rhai achosion, mae'r darparwr wedi gallu trefnu profiad a lleoliadau gwaith ar gyfer cleientiaid y Ganolfan Byd Gwaith. Mynychodd prentisiaid o'r darparwr 'ddiwrnod yn ôl i'r gwaith' y Ganolfan Byd Gwaith yn ddiweddar i ddangos y wybodaeth y maent wedi ei dysgu am feddalwedd arbenigol yn ystod eu hyfforddiant.

Mae ymglymiad cyflogwyr mewn cynllunio a chyflwyno hyfforddiant yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

Mae'r darparwr yn gweithio gyda phensaer Canolfan Mileniwm Cymru trwy ariannu camau cyntaf datblygu "Llwybr Seren Cymru", sef prosiect arloesol i ddathlu unigolion allweddol o Gymru, ble gall y cyhoedd ryngweithio â'r "sêr" a dysgu mwy am enwogion o Gymru.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae cyfarwyddwyr y cwmni yn rheoli'r holl adnoddau ariannol yn briodol. Mae'r cyfarwyddwyr a'r uwch dîm rheoli yn gweithio'n dda gyda'r ddau reolwr canolfan i gynllunio a monitro adnoddau. Mae'r ddau reolwr canolfan yn deall eu dyraniad cyllideb ac maent yn gyfarwydd ag ef, ac yn ei ddefnyddio'n briodol i gyflwyno'r contract. Mae'r uwch dîm rheoli a rheolwyr canolfan yn cyfarfod yn rheolaidd, yn aml

yn anffurfiol, i nodi a thrafod tanberfformio yn erbyn nifer o dargedau penodol, gan gynnwys cyfraddau cwblhau amserol dysgwyr. Rhoddwyd nifer o gamau gweithredu ar waith i wella cyfraddau cwblhau amserol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld unrhyw effaith arwyddocaol, ac mae nifer y dysgwyr sy'n cwblhau yn hwyr yn rhy uchel.

Mae'r ddau reolwr canolfan yn defnyddio eu staff yn briodol, gan alluogi aseswyr i gynnal ymweliadau ychwanegol â dysgwyr nad ydynt wedi gwneud llawer o gynnydd tuag at eu dyddiad targed cymhwyster.

Yn gyffredinol, mae gan aseswyr gymwysterau addas ar gyfer eu maes dysgu. Yn ddiweddar, mae'r rheolwyr canolfan wedi cyflwyno dadansoddiad medrau ar gyfer pob un o'r staff. Mae hyn yn cadarnhau'r cymwysterau medrau galwedigaethol a hanfodol y gallant eu cyflwyno ac mae'n nodi eu hanghenion o ran hyfforddi a datblygu. Mae gan y darparwr raglen hyfforddi arfaethedig ar waith i staff fynychu gweithdai ac ennill eu cymwysterau medrau ar lefel 3. Caiff staff ystod briodol o gyfleoedd datblygiad proffesiynol. Mae rhai aelodau staff yn cymryd rhan yn y rhaglen prentisiaeth uwch ar reoli prosiectau ar lefel 4 a gweinyddu busnes ar lefel 3.

Mae gan y darparwr raglen recriwtio ac ymsefydlu briodol ar gyfer staff. Mae'r rhaglen ymsefydlu staff yn gynhwysfawr ac mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, fel cod ymddygiad y darparwr. Rhoddir llawlyfr cyflogeion defnyddiol i bob un o'r staff i'w helpu â'u gwaith.

Gan fod y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yn anfoddhaol, mae'r darparwr yn rhoi gwerth anfoddhaol am arian.

# Atodiad 1


## Boddhad dysgwyr

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I was given good information by my provider when I was choosing my training programme. | 275 | 105<br>38% | 140<br>51% | 27<br>10% | 3<br>1% | Cefais wybodaeth dda gan fy narparwr pan oeddwn yn dewis fy rhaglen hyfforddi. |
| I have been given good advice about what I can do when I have finished my training programme. | 266 | 65<br>24% | 121<br>45% | 69<br>26% | 11<br>4% | Rydw i wedi cael cyngor da ynglŷn â'r hyn y gallaf ei wneud pan fyddaf wedi gorffen fy rhaglen hyfforddi. |
| My induction has helped me to settle in to my training programme. | 267 | 85<br>32% | 135<br>51% | 40<br>15% | 7<br>3% | Mae fy nghyfnod ymsefydlu wedi helpu i mi ymgynefino yn fy rhaglen hyfforddi. |
| I get good personal support from my trainers or assessors. | 273 | 159<br>58% | 90<br>33% | 18<br>7% | 6<br>2% | Rydw i'n cael cymorth personol da gan fy hyfforddwyr neu aseswyr. |
| There are other effective types of support available for me. | 253 | 59<br>23% | 135<br>53% | 54<br>21% | 5<br>2% | Mae mathau effeithiol eraill o gymorth ar gael i mi. |
| I understand why I was initially assessed at the start of my training programme. | 267 | 92<br>34% | 143<br>54% | 24<br>9% | 8<br>3% | Rydw i'n deall pam y cefais fy asesu ar ddechrau fy rhaglen hyfforddi. |
| I know what I need to do to improve my literacy and numeracy. | 253 | 79<br>31% | 138<br>55% | 32<br>13% | 4<br>2% | Rydw i'n gwybod beth mae angen i mi ei wneud i wella fy llythrennedd a rhifedd. |
| I regularly work with my trainer/assessor to set targets for this improvement. | 258 | 106<br>41% | 107<br>41% | 37<br>14% | 8<br>3% | Rydw i'n gweithio gyda'm hyfforddwr/asesydd yn rheolaidd i osod targedau ar gyfer y gwelliant hwn. |
| The targets I have set with my trainer/assessor have helped me to improve. | 261 | 105<br>40% | 119<br>46% | 34<br>13% | 3<br>1% | Mae'r targedau rydw i wedi eu gosod gyda'm hyfforddwr/asesydd wedi helpu i mi wella. |
| I know how I will be supported in English, Maths and IT. | 248 | 86<br>35% | 106<br>43% | 51<br>21% | 5<br>2% | Rydw i'n gwybod sut byddaf yn cael cymorth mewn Saesneg, Mathemateg a TG. |
| Staff give me learning opportunities and support in Welsh and/or English according to my choice. | 266 | 121<br>45% | 125<br>47% | 19<br>7% | 1<br>0% | Mae staff yn rhoi cyfleoedd dysgu a chymorth i mi yn Gymraeg a/neu Saesneg fel rydw i'n dewis. |
| (Welsh speaking learners only) Should I wish to do so, I can access support for my learning through the medium of Welsh. | 117 | 63<br>54% | 49<br>42% | 3<br>3% | 2<br>2% | (Dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn unig) Pe bawn i'n dymuno gwneud hynny, rydw i'n gallu cael cymorth ar gyfer fy nysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| (Welsh speaking learners only) Should I wish to do so, I am able to complete assessments through the medium of Welsh. | 119 | 62<br>52% | 47<br>39% | 8<br>7% | 2<br>2% | (Dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn unig) Pe bawn i'n dymuno gwneud hynny, rydw i'n gallu cwblhau asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Staff show all learners respect and listen to their views and concerns. | 269 | 153<br>57% | 107<br>40% | 7<br>3% | 2<br>1% | Mae staff yn dangos parch at bob un o'r dysgwyr ac yn gwrando ar eu safbwyntiau a'u pryderon. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff act on the views of learners. | 268 | 119<br>44% | 133<br>50% | 13<br>5% | 3<br>1% | Mae staff yn gweithredu yn unol â safbwyntiau dysgwyr . |
| Staff help me to understand and to respect people from different backgrounds. | 250 | 97<br>39% | 138<br>55% | 13<br>5% | 2<br>1% | Mae staff yn fy helpu i ddeall a pharchu pobl o wahanol gefndiroedd. |
| Learners show respect and support one another well. | 239 | 106<br>44% | 123<br>51% | 10<br>4% | 0<br>0% | Mae dysgwyr yn dangos parch ac yn cynorthwyo ei gilydd yn dda. |
| Staff help me to learn and to make progress. | 266 | 126<br>47% | 122<br>46% | 14<br>5% | 4<br>2% | Mae staff yn helpu i mi ddysgu a gwneud cynnydd. |
| When required, I have access to good quality work placements. | 178 | 54<br>30% | 83<br>47% | 35<br>20% | 6<br>3% | Pan fydd angen, gallaf fanteisio ar leoliadau gwaith o ansawdd da. |
| My employer supports me well to undertake my training programme. | 271 | 146<br>54% | 116<br>43% | 9<br>3% | 0<br>0% | Mae fy nghyflogwr yn rhoi cymorth da i mi ddilyn fy rhaglen hyfforddi. |
| I feel safe and free from harassment in my workplace. | 271 | 166<br>61% | 98<br>36% | 6<br>2% | 1<br>0% | Rydw i’n teimlo’n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth aflonyddwch yn fy ngweithle. |
| I enjoy my learning. | 270 | 108<br>40% | 130<br>48% | 30<br>11% | 2<br>1% | Rydw i’n mwynhau fy nysgu |
| Staff use good quality learning materials. | 255 | 93<br>36% | 134<br>53% | 27<br>11% | 1<br>0% | Mae staff yn defnyddio deunyddiau dysgu o ansawdd da. |
| My trainers/assessors have good knowledge of their subject. | 272 | 153<br>56% | 102<br>38% | 14<br>5% | 3<br>1% | Mae gan fy hyfforddwyr/aseswyr wybodaeth dda am eu pwnc. |
| Staff give me useful feedback on how I can improve my work. | 268 | 126<br>47% | 114<br>43% | 25<br>9% | 3<br>1% | Mae staff yn rhoi adborth defnyddiol i mi ar sut gallaf i wella fy ngwaith. |
| My learning will help me to achieve my goals. | 271 | 114<br>42% | 132<br>49% | 22<br>8% | 3<br>1% | Bydd fy nysgu yn helpu i mi gyflawni fy nodau. |
| Taking part in this training programme has helped me to improve my life skills. | 250 | 77<br>31% | 123<br>49% | 43<br>17% | 7<br>3% | Mae cymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi hon wedi helpu i mi wella fy medrau bywyd. |
| Taking part in this training programme has helped me to become involved in my community. | 226 | 40<br>18% | 68<br>30% | 96<br>42% | 22<br>10% | Mae cymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi hon wedi helpu i mi gymryd rhan yn fy nghymuned. |
| My learning has helped improve my attitudes to keeping healthy and safe. | 238 | 57<br>24% | 108<br>45% | 65<br>27% | 8<br>3% | Mae fy nysgu wedi helpu i mi wella fy agweddau at gadw’n iach a diogel. |
| I would recommend this training provider to other people. | 273 | 126<br>46% | 101<br>37% | 29<br>11% | 17<br>6% | Byddwn yn argymell y darparwr hyfforddiant hwn i bobl eraill. |

## **Learner Questionnaire** / **Holiadur Dysgwyr**

**All Gender, All Ages**



| Statement | Strongly Agree | Agree | Disagree | Strongly Disagree | Datganiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff act on the views of learners. | 44% | 50% | 5% | 1% | Mae staff yn gweithredu yn unol â safbwyntiau dysgwyr . |
| Staff help me to understand and to respect people from different backgrounds. | 39% | 55% | 5% | 1% | Mae staff yn fy helpu i ddeall a pharchu pobl o wahanol gefndiroedd. |
| Learners show respect and support one another well. | 44% | 51% | 4% | 0% | Mae dysgwyr yn dangos parch ac yn cynorthwyo ei gilydd yn dda. |
| Staff help me to learn and to make progress. | 47% | 46% | 5% | 2% | Mae staff yn helpu i mi ddysgu a gwneud cynnydd. |
| When required, I have access to good quality work placements. | 30% | 47% | 20% | 3% | Pan fydd angen, gallaf fanteisio ar leoliadau gwaith o ansawdd da. |
| My employer supports me well to undertake my training programme. | 54% | 43% | 3% | 0% | Mae fy nghyflogwr yn rhoi cymorth da i mi ddilyn fy rhaglen hyfforddi. |
| I feel safe and free from harassment in my workplace. | 61% | 36% | 2% | 0% | Rydw i'n teimlo'n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth aflonyddwch yn fy ngweithle. |
| I enjoy my learning. | 40% | 48% | 11% | 1% | Rydw i'n mwynhau fy nysgu |
| Staff use good quality learning materials. | 36% | 53% | 11% | 0% | Mae staff yn defnyddio deunyddiau dysgu o ansawdd da. |
| My trainers/assessors have good knowledge of their subject. | 56% | 38% | 5% | 1% | Mae gan fy hyfforddwyr/aseswyr wybodaeth dda am eu pwnc. |
| Staff give me useful feedback on how I can improve my work. | 47% | 43% | 9% | 1% | Mae staff yn rhoi adborth defnyddiol i mi ar sut gallaf i wella fy ngwaith. |
| My learning will help me to achieve my goals. | 42% | 49% | 8% | 1% | Bydd fy nysgu yn helpu i mi gyflawni fy nodau. |
| Taking part in this training programme has helped me to improve my life skills. | 31% | 49% | 17% | 3% | Mae cymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi hon wedi helpu i mi wella fy medrau bywyd. |
| Taking part in this training programme has helped me to become involved in my community. | 18% | 30% | 42% | 10% | Mae cymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi hon wedi helpu i mi gymryd rhan yn fy nghymuned. |
| My learning has helped improve my attitudes to keeping healthy and safe. | 24% | 45% | 27% | 3% | Mae fy nysgu wedi helpu i mi wella fy agweddau at gadw'n iach a diogel. |
| I would recommend this training provider to other people. | 46% | 37% | 11% | 6% | Byddwn yn argymell y darparwr hyfforddiant hwn i bobl eraill. |

■ Strongly Agree ■ Agree ■ Disagree ■ Strongly Disagree

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Alun Connick | Arolygydd Cofnodol |
| Gerard Kerslake | Arolygydd Tîm |
| Vanessa Morgan | Arolygydd Tîm |
| Stephen Davies | Arolygydd Tîm |
| Sandra Barnard | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Ian Dickson | Arolygydd Tîm |
| Linda Thomas | Enwebai |